

Ymateb Estyn i'r cynnig gan awdurdod lleol Caerffili i adeiladu ysgol newydd a mwy yn lle Ysgol Gynradd bresennol Plasyfelin ar safle'r ysgol bresennol

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae rhy ychydig o wybodaeth am safon bresennol yr addysg yn Ysgol Gynradd Plasyfelin a sut gallai lleoedd dros ben mewn ysgolion cyfagos gael eu heffeithio.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg resymol ar gyfer y cynnig hwn. Mae'n dilyn cynllun yr awdurdod lleol i fuddsoddi mewn gwella adeiladau ei ysgolion a datblygu cyfleusterau a rennir ac a gydleolir at ddefnydd y gymuned. Yn sgil y cynnig, byddai ysgol newydd a mwy yn cael ei hadeiladu ar y tir ar safle'r ysgol bresennol, gyda chynnydd o'r capasiti presennol, sef 394 o ddisgyblion i 420 o leoedd i ddisgyblion, yn ogystal â 60 o leoedd meithrin. Nid yw'r cynigiwr wedi nodi p'un a yw'r capasiti presennol, sef 394 o ddisgyblion, yn cynnwys lleoedd meithrin.

Nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.19) yn gofyn i'r cynigiwr ymgynghori o dan y cod, gan y byddai prif fynedfa'r ysgol newydd o fewn 1.609344 cilomedr (milltir) i brif fynedfa'r ysgol bresennol. Serch hynny, mae'r awdurdod lleol yn amlinellu ei nod i gymryd rhan mewn proses dryloyw, gytbwys ac agored i wneud penderfyniadau, trwy hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw, sy'n adlewyrchu egwyddorion y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025.

Mae'r cynigiwr yn cyflwyno disgrifiad manwl o'r fframwaith opsiynau a ddefnyddiodd i gefnogi'r penderfyniadau a wna am ddymunoldeb, hyfywedd a dichonoldeb cymharol y cynnig hwn. Mae'n amlinellu'n glir ac yn deg fanteision ac anfanteision disgwylidig gwneud newidiadau i'r ysgol bresennol. Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n glir anawsterau gwneud gwaith ffisegol ychwanegol i'r ysgol bresennol, oherwydd nodwyd bod asbestos trwy'r adeiladau. Darperir rhesymau clir a dilys ynglŷn â pham y diystyrwyd tri o'r dewisiadau eraill. Mae'r cynnig yn nodi'r modd y mae nifer o grwpiau cymunedol, fel grŵp actio amatur a thîm pêl-droed lleol, eisoes yn defnyddio adeiladau'r ysgol bresennol a'i hamgylchedd awyr agored. Felly, nid yw'n glir pam

nad ystyriwyd opsiwn i ddisodli adeilad yr ysgol gynradd ar safle presennol Plas-y-felin â'r un nifer derbyn a gyda chyfleusterau i'w defnyddio gan y gymuned.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr, ond gan nad oes unrhyw newid i'r dalgylch ac mae'r lleoliad arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd o fewn safle'r ysgol bresennol, mae'n rhesymol tybio mai bach iawn fydd y goblygiadau i drefniadau teithio dysgwyr. Mae nifer o lwybrau 'teithio diogel' eisoes wedi'u sefydlu. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod y cynnig yn rhoi cyfle i wella'r ffordd fynediad at yr ysgol a'r manau troi dynodedig ar gyfer bysiau neu dacsis. O ran hygyrchedd, nid yw'r cynigiwr wedi amlinellu sut gallai gyflawni'r gwelliannau hyn, tra'n lleihau'r tarfu ar drigolion lleol, disgyblion a staff i'r eithaf.

Yn ei resymeg, mae'r cynigiwr yn nodi datblygiadau tai newydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Plas-y-felin fel y prif reswm dros gynyddu nifer derbyn yr ysgol i gapasiti o 420 o ddisgyblion, yn ogystal â 60 o ddisgyblion meithrin. Fodd bynnag, mae'r niferoedd rhagamcanedig yn dangos na fyddai'r ysgol yn cyrraedd ei chapasiti erbyn 2030 (chwe blynedd ar ôl dyddiad cwblhau rhagamcanedig yr adeilad newydd). Mae nifer rhagamcanedig y disgyblion meithrin ar y gofrestr erbyn 2030 yn awgrymu y gallai fod 24 o leoedd meithrin dros ben yn yr ysgol. Nid yw'r cynigiwr yn rhoi esboniad digonol dros gynyddu nifer y lleoedd meithrin, pan mae'r modelu yn awgrymu y byddai'r niferoedd ar y gofrestr yn debyg iawn i'r niferoedd ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig yn rhoi manylion am niferoedd derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Plas-y-felin ac ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion babanod ac ysgolion iau cyfagos. Ar hyn o bryd, mae 73.31% o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o oddi mewn i'r dalgylch. Mae tua thraean o ddisgyblion sy'n gymwys i fynychu Ysgol Plas-y-felin yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg arall, ac mae bron 40% o ddisgyblion o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Plas-y-felin yn mynychu ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir p'un a yw'r cynigiwr wedi ymgymryd â dadansoddiad tebyg o'r patrymau presenoldeb presennol ar draws yr ysgolion cyfagos) yn y niferoedd rhagamcanedig.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi risgiau posibl yn gysylltiedig â'r cynnig, ac un o'r rhain yw ansefydlogi darpariaeth addysgol sydd eisoes wedi'i sefydlu yn yr ardal. Mae'r cynigiwr yn teimlo'n hyderus y gellir lliniaru'r risg trwy gynyddu'r nifer derbyn i Ysgol Gynradd Plas-y-felin dros gyfnod 'gan nifer hylaw'. Fodd bynnag, nid yw'n dangos sut bydd y lleoedd gwag rhagamcanedig mewn ysgolion eraill hyd at 2026, fel Ysgol Fabanod Hendre, Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Gynradd Sant Iago yn cael eu heffeithio. Mae'r cynnig yn cyfeirio at y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg yn Ysgol Plas-y-felin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. O ystyried bod traean o ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Plas-y-felin yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nid yw'r cynigiwr yn ddigon penodol am sut mae'r cynnig hwn yn cefnogi, neu sut gallai effeithio, ar y targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

At ei gilydd, nid yw'r rhesymeg dros fwrw ymlaen ag opsiwn 5, sy'n cynyddu nifer derbyn yr ysgol, dros opsiwn 4, sef disodli'r ysgol gynradd heb unrhyw newid i nifer bresennol y disgyblion a dderbynnir, yn ddigon cadarn.

Mae'r cynigiwr yn esbonio sut bydd yn ariannu adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Plas-y-felin, ond nid yw'n darparu costau dangosol ar gyfer y prosiect na graddfa unrhyw arbedion net rhagamcanedig.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynigion ar ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion a'u lles, er enghraifft o ran eu datblygiad corfforol trwy welliannau i gyfleusterau dan do ac awyr agored. Mae'r cynigiwr yn ystyried y wybodaeth o adroddiad arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgol, a gyhoeddwyd yn 2016. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn rhoi dehongliad camarweiniol o un o farnau'r adroddiad y mae'n ei defnyddio i gefnogi ei resymeg ar gyfer y cynnig.

Yn y crynodeb o berfformiad presennol yr ysgol a'r sylwebaeth bod ei rhagolygon ar gyfer gwella yn 'dda', mae'r adroddiad arolygu yn nodi 'Mae staff yn rheoli adnoddau'n dda a disgyblion yn elwa ar amgylchedd dysgu o ansawdd uchel' (Estyn, 2016, tud.2). Nid yw'r adroddiad arolygu yn nodi y '*gellid cyflawni gwelliannau pe bai cydbwysedd da o ran adnoddau*' neu '*byddai disgyblion yn elwa ar amgylchedd dysgu o ansawdd da*', fel y nodwyd yn y cynnig. Hefyd, nid yw'r cynnig yn rhoi barn ddiweddaraf yr awdurdod lleol na'r consortiwm rhanbarthol ar safonau presennol, ansawdd yr addysgu na'r cwricwlwm; gofal, cymorth ac arweiniad, nac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) wrth ddisgrifio dyluniad a chynllun arfaethedig yr adeilad newydd, ac wedi cynnal asesiad integredig manwl o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'n dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu niwtral o ran Deddf Cydraddoldeb 2010, ffactorau economaidd-gymdeithasol a chyflawni amcanion lles yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn hyderus mai ychydig iawn o darfu fyddai ar weithrediad yr ysgol bresennol o ddydd i ddydd, tra bydd y gwaith adeiladu arfaethedig yn cael ei wneud, ac y bydd grwpiau cymunedol sydd hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol yn gallu parhau â'u gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oes digon o wybodaeth am y modd y byddai tarfu ar y safle yn cael ei fonitro, a sut byddai dysgwyr a staff yn cael eu cynorthwyo wrth symud i'r ysgol newydd. Yn ychwanegol, mae'r cynigiwr wedi amlinellu y bydd angen datgomisiynu, dymchwel a gwaredu'r adeiladau presennol yn unol â chanllawiau priodol pan fydd y cyfleuster newydd yn gyflawn. Nid yw'n glir sut gallai hyn effeithio ar staff, disgyblion a thrigolion lleol, na sut byddai'r awdurdod lleol yn lliniaru unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r gwaith hwn.